Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Ymateb i Ymchwiliad/ Inquiry Response

Date / Dyddiad: 11 Mai 2020

Subject / Pwnc: Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc (gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch)

Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Rwy'n croesawu ailgyflwyno gwaith y Pwyllgor a chraffu yn y cyfnod hwn, a'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu i ymateb i amrywiaeth o alwadau am dystiolaeth a safbwyntiau. Bydda i'n cyflwyno'r hyn mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio arno ers ymlediad y Coronafeirws, ac yna'n rhoi sylw mwy manwl i'r ymchwiliadau a awgrymir gan y Pwyllgor isod.

**Trosolwg o weithgaredd gwaith CPC yn y cyfnod hwn**

Er ein bod wedi gorfod atal ein gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc ar hyn o bryd, rydyn ni'n cael hyd i ffyrdd newydd o weithio er mwyn estyn allan at blant a phobl ifanc a chynrychioli eu barn. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod negeseuon o gyngor a chefnogaeth yn cyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a gofalwyr ifanc. Mae'r elfennau eraill o waith creiddiol fy nhîm yn dal heb newid i raddau helaeth, gan gynnwys ymateb i ymgyngoriadau parhaus y llywodraeth sy'n effeithio ar blant.

Rydw i'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion uwch Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i rannu gwybodaeth a gasglwyd o waith fy nhîm yn ystod y cyfnod yma. Mae materion sy'n codi o waith achosion neu gwestiynau gweithwyr proffesiynol yn cael eu bwydo ymlaen i'r swyddogion perthnasol er mwyn egluro'r cyngor y gallwn ei roi, yn ogystal â dylanwadu ar y canllawiau a'r negeseuon sy'n dod gan Lywodraeth Cymru.

Ar ben hyn, rydyn ni wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i'r pandemig:

- Mae ein holl staff wedi'u galluogi'n llawn i weithio gartref, gyda mynediad i'n systemau a'n hadnoddau ar-lein. Mae hynny wedi golygu ein bod ni'n gallu parhau i gynnig ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, gan roi cyngor a chefnogaeth i blant, eu rhieni a'r gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanyn nhw neu'n eu cefnogi. Yn ogystal â darparu'r gwasanaeth dwyieithog beunyddiol hwn i Gymru gyfan, rydyn ni wedi cytuno i gynorthwyo Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru os bydd angen capasiti ychwanegol arnyn nhw i ymateb i'w galwadau am gyngor oherwydd y galwadau hir maen nhw'n eu prosesu.

- Ganol mis Mawrth, cyn y cyfyngiadau symud ffurfiol, penderfynais i greu Hwb Gwybodaeth am y Coronafeirws ar fy ngwefan, gan gynnig amrywiaeth o gefnogaeth, cyngor, Cwestiynau Cyffredin ac adnoddau a luniwyd ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae'r

adnoddau yn cynnwys cymysgedd o ddeunyddiau addysgol, a gweithgareddau difyr i bob oed eu chwarae. Mae'r Hwb ar gael yn ddwyieithog, ac mae swyddogion o'm timau Cyfathrebu, Cyfranogiad a Pholisi yn gweithio'n galed i ddatblygu a chreu cynnwys newydd bob dydd a diweddaru'r canllawiau sydd yno. Mae hon yn gryn gamp i'r swyddfa, ond yn dasg y mae'n bwysig rhoi blaenoriaeth iddi. Rydyn ni wedi cael adborth rhagorol ar yr Hwb eisoes, ac mae llawer o gyrff eraill, gan gynnwys y Llywodraeth a Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cyfeirio pobl at ein safle.

- Ar 13 Mai 2020 bydd arolwg cenedlaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael ei lansio, i ystyried "Coronafeirws a fi"; barn pobl ifanc ar y sefyllfa bresennol, yn troi o amgylch erthyglau allweddol CCUHP. Mae fy swyddfa wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru a'r Senedd Ieuenctid i ddatblygu'r arolwg yma ar-lein, yr arolwg cyntaf o'i fath dan arweiniad y Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig. Mae fy swyddfa i wedi arwain agwedd reoli'r prosiect, ac wedi sicrhau bod egwyddorion ein dull gweithredu Ffordd Gywir yn sylfaen ar gyfer pob agwedd ar y gwaith.

  Mae'r arolwg ar agor i bobl ifanc 7-18 oed, yn cwmpasu themâu a materion hawliau plant allweddol, gan gynnwys iechyd a llesiant, addysg, yr effaith ar agweddau cymdeithasol eu bywydau ac anghenion grwpiau penodol. Bydd yn galluogi plant a phobl ifanc i fyfyrio ar eu profiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf, a nodi'r gefnogaeth bydd arnyn nhw ei hangen pan fydd ysgolion a chyfleusterau eraill yn dechrau agor eto. Bydd y canlyniadau'n llywio dull Llywodraeth Cymru o weithio a chyfathrebu gyda chenhedlaeth iau Cymru yn ystod a'r tu hwnt i'r pandemig.

  Hefyd mae fersiwn symbolau ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio symbolau i'w helpu i gyfathrebu, ochr yn ochr â thasg gweithgaredd lluniau y gall plant a phobl ifanc ddewis ei chwblhau yn lle llenwi'r arolwg. Bydd yr opsiynau hyn yn galluogi ystod eang o blant a phobl ifanc i gymryd rhan, gan gynnwys plant o dan 7 a phlant ag anghenion cefnogi ychwanegol.

Er bod fy swyddfa'n dal yn annibynnol ar y Llywodraeth, roedden ni'n meddwl ei fod yn bwysig cefnogi darn fel hyn o waith a fydd yn caniatáu i safbwyntiau plant gael eu clywed yn uniongyrchol

gan weinidogion a swyddogion y Llywodraeth ar hyn o bryd, yn arbennig tra bod gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb yn amhosib. Roedden ni hefyd am osgoi'r 'blino ar arolygon' a allai ddigwydd petai nifer o gyrff cenedlaethol yn ceisio cynnal arolygon gyda phlant ar yr un pryd. Oherwydd ein profiad sylweddol ym maes ymgysylltu, rydyn ni wedi gallu arwain y gwaith o gynllunio'r prosiect, gan gynnwys gwneud plant a phobl ifanc yn rhan o ddatblygu a phrofi'r arolwg, yn sgîl ein profiad blaenorol o gynnal arolygon o'r fath.

Ar hyd y cyfnod yma rydyn ni hefyd wedi bod yn codi nifer o faterion polisi gyda swyddogion ar draws y Llywodraeth; bydd fy ymateb isod yn rhoi sylw i'r materion rydyn ni wedi bod yn dod ar eu traws. Rydw i'n fwriadol wedi dewis mynd â'r cwestiynau hyn at swyddogion y Llywodraeth mewn modd cyflym ond uniongyrchol; mae'n hanfodol bwysig bod craffu ar holl waith a phenderfyniadau'r Llywodraeth yn parhau, ond nid wyf wedi teimlo ei fod yn briodol nac yn angenrheidiol codi materion mewn cyd-destun cyhoeddus oherwydd yr holl bwysau sydd ar bawb sy'n ymateb i'r pandemig. Gan fy mod i'n Gomisiynydd annibynnol, gallwch fod yn sicr, os bydd angen yn codi, y byddaf yn gwneud fy ngalwadau am newid yn gyhoeddus. Ar ben hynny, mae fy nhîm wedi bod yn rhoi adborth ar rai canllawiau drafft y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno, gan fy mod i'n ffafrio cynnig cefnogaeth fel ffrind beirniadol, a chynorthwyo yn y cyfnodau drafftio, yn hytrach na gorfod codi cwestiynau neu bryderon ar ôl i ganllaw gael ei gyhoeddi, yn enwedig os nad yw'r wybodaeth yn glir i deuluoedd.

## <u>Meysydd ffocws y mae'r Pwyllgor wedi cyfeirio atynt</u>

### Iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc

Rydw i wedi datgan droeon, mewn cyfarfodydd, gwaith ar y cyfryngau a chyhoeddiadau, mai iechyd meddwl plant a phobl ifanc yw un o'r materion sy'n cael ei godi amlaf gyda'm swyddfa, gan blant eu hunain yn ogystal â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Nid yw hynny'n wahanol yn yr hinsawdd bresennol, gan fod y pwysau newydd yn sgîl y mesurau cadw pellter cymdeithasol yn golygu bod cyswllt pobl â'u rhwydweithiau cefnogi, p'un ai ffrindiau a theulu a/neu weithwyr proffesiynol, yn anoddach ei gyrchu a'i gyrraedd nag arfer.

Yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, cafodd teuluoedd rhai plant ag anableddau fraw oherwydd canllawiau cyflym COVID-19 NICE ar ofal critigol, oedd fel petaen nhw'n awgrymu na

fyddai pobl ag anableddau o bosib yn cael blaenoriaeth o ran mynediad i beiriannau anadlu a thriniaeth. Yn dilyn llythyr cyfreithiol cyn gweithredu yn Lloegr, newidiwyd y canllawiau ar frys, ac roedden ni mewn sefyllfa i ychwanegu hynny at ein Cwestiynau Cyffredin ar ein Hwb Gwybodaeth i dawelu meddyliau'r teuluoedd oedd wedi cysylltu â ni.

Drwy gydol y cyfnod yma, mae fy nhîm wedi bod mewn cyswllt gyda chyrff proffesiynol meddygol a sefydliadau o'r trydydd sector. Rydym ni wedi cael gwybod nad yw rhai cyflyrau iechyd sydd fel arfer yn codi neu'n cael diagnosis yn ystod plentyndod yn cael eu cyflwyno, er enghraifft Diabetes. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod pobl yn bryderus ynghylch mynd i ganolfannau meddygol neu'n ansicr pa wasanaethau sy'n dal i weithredu. Maen nhw'n casglu data fydd yn cynnwys oedi i asesiadau a thriniaeth o ganlyniad i'r argyfwng, er enghraifft gweledledd a hygyrchedd canfyddedig gwasanaethau, a pha mor weladwy yw plant.

Er bod rhai gwasanaethau fel ymweliadau iechyd yn dal mewn cysylltiad â theuluoedd, dyw hynny ddim yn gweithredu'n union fel y byddai fel arfer. Hefyd nid yw pediatregwyr yn gweld plant yn dod atynt mor rheolaidd ag yn y gorffennol, er bod clinigau'n parhau i raddau helaeth gan ddefnyddio dulliau fel ymgyngoriadau fideo. Bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau atgyfeirio amddiffyn plant yn ogystal â sgrinio iechyd. Mae Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant wedi cyhoeddi data defnyddiol sy'n cynnwys gywbodaeth am yr effaith ar staffio a chapasiti gwelyau cleifion-mewnol. Rydyn ni'n pryderu y bydd angen ail-adeiladu staffio a chapasiti cleifion-mewnol wrth symud ymlaen, ac os fyddwn ni'n profi tonnau eraill o'r feirws, efallai y gwelwn fwy o adnoddau pediatreg yn cael eu hailgyfeirio.

Wrth i gyrff proffesiynol edrych tuag at cyfnod o adferio, maent wedi bod yn rhannu pryderon gyda ni am nifer o elfennau sy'n dod at ei gilydd: ôl-groniad o gleifion dydyn nhw ddim yn eu gweld oherwydd cyfuniad o oedi yn y cyswllt clinigol, a theuluoedd ddim yn cyflwyno'u hunain; cynnydd yn yr achosion newydd sy'n dod i'r gwasanaethau iechyd yn gyffredinol; ail don o Covid-19, a allai fod yn rhan o'r pwysau yn ystod y gaeaf; a gostyngiad yn y nifer sy'n dod i gael brechiadau, a allai arwain at achosion o'r frech goch yn ymledu, ochr yn ochr â hyn i gyd.

Ar 23 Ebrill 2020 fe wnes i godi llais yn y cyfryngau i atgoffa pobl bod llawer o wasanaethau'n dal yn hygyrch hyd yn oed os ydyn nhw o bosib yn edrych ac yn teimlo ychydig yn wahanol i sut

bydden nhw'n gweithredu fel arfer. Fe wnes i sylweddoli y gallai rhieni fod yn amharod i ofyn am help oherwydd eu bod yn teimlo y gallen nhw roi eu plant neu eu teuluoedd mewn perygl, neu y bydden nhw'n faich ar feddygon a nyrsys yn ystod y pandemig. Ond gallai hynny olygu nad oedd plant yn cael y cymorth meddygol angenrheidiol ar gyfer salwch a allai fod yn ddifrifol, a fyddai'n gorbwyso'n llwyr y risg o adael y tŷ a mynd i'r ysbyty. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52385095

Mae fy nhîm a minnau wedi rhoi blaenoriaeth i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r unedau iechyd meddwl i gleifion mewnol yn ne a gogledd Cymru ar hyd y cyfnod yma. Mae'r ddwy uned yn adrodd yn gyffredinol eu bod yn ymdopi o ran staffio ac anghenion pobl ifanc. Mae rhai pobl ifanc wedi cael eu rhyddhau o Tŷ Llidiard ond rydw i wedi cael fy sicrhau mai penderfyniad clinigol yw hynny, gan sicrhau bod cefnogaeth gymunedol addas ar gael yn ogystal. Mae un broblem barhaus wedi bod gyda'r ddarpariaeth WiFi, ac mae hynny wedi effeithio ar allu aelodau staff i gynnal sesiynau therapi a chyngor o bell. Rydw i wedi codi hyn sawl tro gyda Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion byrddau iechyd Cwm Taf a Bae Abertawe, gan fod hwn yn un o'r meysydd lle mae'r contract yng ngofal Abertawe ar ran Cwm Taf. Mae wedi bod yn anodd datrys y mater hwn, gwaetha'r modd, er ei fod yn deg dweud i ni gael ymateb cadarnhaol yr wythnos ddiwethaf, gan gynnwys ymweliadau ar y safle gan dechnegwyr. Serch hynny, rwyf wedi cael fy sicrhau bod y gefnogaeth i bobl ifanc dros y ffôn wedi parhau.

Rwyf hefyd wedi bod yn monitro argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, ac yn cael diweddariadau gan y GIG a Llywodraeth Cymru. Mae ystod eang o wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys CAMHS a'r sector gwirfoddol, wedi parhau i fedru cynnig gwasanaeth trwy estyn cefnogaeth fideo a ffôn yn gyflym. Cafodd fy nhîm fanylion sut mae cael mynediad i CAMHS ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, ac fe wnaethon ni gyhoeddi hynny ar ein hwb gwybodaeth. Serch hynny, rydyn ni wedi bod yn pryderu ynghylch pa mor anodd yw cael hyd i wybodaeth o'r fath ar wefannau byrddau iechyd, ac rwyf fi wedi ysgrifennu at bob prif weithredwr a chadeirydd yn gofyn iddyn nhw adolygu hyn.

Mae effaith y mesurau cyfyngiadau symud ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn anhysbys ar hyn o bryd, ond mae'n debygol y bydd mwy fyth o angen yn y cyfnod adfer am welliannau i'n systemau iechyd meddwl y mae'r pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg a minnau

wedi bod yn pwyso amdanynt, er enghraifft dull gweithredu ysgol gyfan a system 'dim drws anghywir' pan fydd angen cefnogaeth ar blant a'u teuluoedd. Roeddwn i'n bwriadu cyhoeddi fy adroddiad ar sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynllunio ac yn darparu ar gyfer llesiant plant yn nhrydedd wythnos mis Mawrth, ond fe wnes i benderfynu na fyddai'n briodol ei gyhoeddi ar yr adeg gyntaf honno yn yr argyfwng. Mae'r canfyddiadau gyda chadeiryddion y BPRh a'r llywodraeth a bydda i'n cyhoeddi yn y man. Bydda i'n sicrhau bod yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.

Rydw i hefyd wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â lleoliadau diogel/cyfiawnder ieuenctid yng Nghartref Plant Diogel Hillside a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Eto, mae'r lleoliadau hyn yn adrodd eu bod ar hyn o bryd yn cadw iechyd a llesiant y staff a'r bobl ifanc dan reolaeth. Maent hefyd yn sôn bod morâl pawb yn uchel, ac maen nhw wedi sylwi bod natur y ddarpariaeth yn golygu eu bod mewn rhai ffyrdd yn cael eu cysgodi rhag effeithiau'r mesurau cyfyngiadau symud yn y gymuned. Maent fel ei gilydd yn gallu cynnig mynediad i Skype i'r holl bobl ifanc, ar gyfer cyswllt teuluol yn ogystal ag ymyriadau therapiwtig a chyfarfodydd adolygu. Maen nhw wedi llwyddo i gynnal darpariaeth addysg yn y ddau leoliad ac wedi cael hyd i lu o wahanol weithgareddau y gallan nhw eu cynnig er mwyn parhau i gefnogi iechyd a llesiant.

Serch hynny, roedd pryderon cynnar. Yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud fe wnes i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar ôl dod yn ymwybodol bod Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, gan gynnwys y Parc, yn cael eu gorfodi i ddilyn yr un trefniadau cyfyngol iawn â charcharau oedolion, oedd yn golygu bod rhaid i'r bobl ifanc gael eu hynysu bron yn llwyr yn eu hystafelloedd rownd y cloc. Ymatebodd Parc YOI yn gyflym i gyngor newydd i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a ddarparwyd o fewn rhai dyddiau, a rhoi rhaglen newydd arloesol ar waith: addysg, cymdeithasu a phrydau bwyd mewn 'grwpiau teulu' bach, y mae'r bechgyn wedi ymateb yn dda iddynt, yn ôl pob sôn, gan fod yr achosion o drais ymhlith cyfoedion yn is na chyn cyfnod y cyfyngu. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n gadarnhaol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan HMIP ar 'ymweliadau craffu byr â sefydliadau troseddwyr ifanc lle cedwir plant' ar 7 Mai 2020, yn dilyn ymweliadau archwilio diweddar â'r Parc a rhai Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill yn Lloegr.

Ar y cychwyn achosodd llythyron gwarchod lawer o bryder i deuluoedd oedd yn cysylltu â'm swyddfa, gan gynnwys llythyron heb eu cyflwyno, a systemau cefnogi awdurdodau lleol ac archfarchnadoedd ddim yn cydnabod llythyron a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan Feddygon Teulu, llythyron yn enw plentyn er mai'r oedolyn oedd yn gwneud y siopa, a mynediad at gymorth arall. Codwyd y pryderon hyn gyda Llywodraeth Cymru ac rydw i wedi gallu rhoi gwybod i deuluoedd bod y materion hynny wedi'u datrys bellach. Gall unrhyw deuluoedd sy'n dal i wynebu anawsterau fel y rhain gysylltu â'm gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor https://www.complantcymru.org.uk/cysylltu/

Fe'n gwnaed yn ymwybodol hefyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod gofalwyr ifanc yng Nghymru yn wynebu heriau wrth gyrchu cyflenwadau, fel moddion a bwyd, gan fod eu rôl hanfodol yn aml ddim yn hawdd ei hadnabod na'i nodi. Mae adnabod gofalwyr ifanc yn bryder hirdymor sydd wedi cael ei amlygu gan yr argyfwng hwn.

**Plant mewn sefyllfa fregus ac o dan anfantais (gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim)**

Mae gallu derbyn prydau ysgol am ddim yn gymorth pwysig i lawer o deuluoedd yn ystod y tymor, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal y ddarpariaeth fwyd i deuluoedd cymwys, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn i'n hoffi ei weld yn parhau yn y dyfodol, hyd yn oed wedi'r pandemig, yn arbennig gan fod egwyl o 6 wythnos dros wyliau'r haf. Mae croeso mawr wedi bod i raglenni Bwyd a Hwyl a Newyn Gwyliau, ond maent yn cyrraedd cyfran fach yn unig o'r rhai a fyddai fel arall yn gallu cael pryd ysgol am ddim yn ystod y tymor.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynllun taliadau/talebau cenedlaethol, ond nid yw hynny'n derbyn sylw bellach. Ers hynny rwyf wedi adolygu a dadansoddi darpariaeth pob awdurdod lleol ar hyn o bryd, ac rwyf wedi nodi'r canlynol:

- Amrywiad yn y symiau sy'n cael eu darparu (nid yw rhai yn nodi swm, mae'n £15 yr wythnos mewn un ALl, mae'n £19.50 mewn llawer, ac yn £20 mewn un).

- Mae'r ddarpariaeth hyd yma wedi amrywio'n fawr, gyda thalebau archfarchnad, taliadau uniongyrchol/trosglwyddiadau banc, darparu prydau wedi'u rhewi ar gyfer yr wythnos, darparu cynhwysion i wneud cinio pecyn, a chasglu 'bagiau bachu' o ganolfan ysgol. Bwriad prydau ysgol am ddim yw bod plant yn cael pryd poeth, felly mae'n ymddangos bod y teuluoedd sydd wedi cysylltu â'r swyddfa yn ffafrio darparu prydau i'w cynhesu neu arian i'w prynu, yn hytrach na thorthau o fara a chreision. Rwy'n deall y gall rhai teuluoedd fod yn wynebu tlodi tanwydd ar hyn o bryd, ond dyma'r adborth rwy wedi'i gael gan deuluoedd hyd yma.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r lwfans dyddiol ar hyn o bryd yw £3.90 y disgybl[1]. Mae hyn wedi'i seilio ar gyfrifo union gost darparu cinio addas, yn ogystal â'r ffaith bod rhai disgyblion yn colli eu brecwast a'u llaeth yn yr ysgol. Dyma'r ffigur uchaf yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac rwyf fi am sicrhau bod yr holl deuluoedd cymwys yn derbyn budd llawn o'r cyllid hwn. Rwy'n deall bod yr ALl oedd yn cynnig £15 yr wythnos yn awr yn diweddaru eu darpariaeth yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Rwy'n deall bod rhai awdurdodau lleol wedi croesawu gweld teuluoedd yn casglu'r ddarpariaeth, gan eu bod hefyd yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r plant pan fyddan nhw'n dod i gasglu'r bwyd, i weld oes angen cefnogaeth arnyn nhw gyda'u haddysg neu unrhyw beth arall. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd hefyd wedi amlygu anawsterau wrth gyrraedd canolfannau ysgol, yn arbennig gan fod cyfyngiadau teithio a chludiant cyhoeddus, ac mae fy nhîm wedi codi'r pryderon hyn gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r awdurdodau lleol perthnasol. Rwy'n falch o nodi bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn awr wedi gweithredu system taliadau uniongyrchol, a bod rhai yn ystyried neu eisoes yn cynnig peth hyblygrwydd, gan gynnwys blychau/parseli bwyd sy'n cael eu dosbarthu gan staff ysgol. Mae taliadau uniongyrchol yn achosi llai o stigma na chynllun talebau, ac yn datblygu'r hyblygrwydd i deuluoedd siopa pryd bynnag sy'n addas iddyn nhw, yn agos i'w cartrefi, a chan ymateb i anghenion a gofynion deietegol unigol eu plentyn.

Byddwn i'n hoffi i wefannau awdurdodau lleol fod yn gliriach ynghylch sut mae cael mynediad i'r ddarpariaeth a sut mae'r hawl yn gweithredu; wrth i mi gynnal fy adolygiad fy hun, doedd yr holl

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-05/ATISN%2013904.pdf

wybodaeth ddim wedi'i diweddaru, yn benodol i'r pandemig a/neu'n arbennig o hawdd ei lleoli. Gan y gallai teuluoedd newydd ddod yn gymwys yn ystod y cyfnod hwn oherwydd colli swyddi a'r cynllun ffyrlo, mae'n bwysig bod teuluoedd yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth hon yn gyflym ac yn uniongyrchol.

Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu problem diogelwch bwyd ar gyfer plant a theuluoedd, y bydd llawer ohonynt yn cael trafferth ymdopi ond ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae Trussell Trust wedi amlygu bod 122% yn fwy o barseli bwyd wedi bod yn mynd at blant yn y Deyrnas Unedig o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.[2] Er nad dyma'r unig ateb, rwy'n falch o weld bod rhai awdurdodau lleol yn darparu parseli bwyd ychwanegol ar gyfer teuluoedd sydd mewn sefyllfa arbennig o fregus ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch beth sydd ar gael ar eu tudalennau prydau ysgol am ddim ar y we.

Mae ystyried y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim wedi ailgodi'r pryderon y gwnes i eu hamlygu yn fy adroddiad Siarter ar gyfer Newid ar brofiadau plant o dlodi yng Nghymru; byddwn i'n hoffi gweld plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r grant Mynediad PDG yn cael eu cofrestru'n awtomatig wrth wneud cais am fudd-daliadau eraill fel budd-dal tai neu ostyngiadau treth y cyngor. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) edrych ar sut mae modd cyflwyno hyn ym mhob ardal o Gymru, fel bod teuluoedd ddim yn colli cyfle i gael yr help a ddylai fod ar gael iddyn nhw.

Rydyn ni wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch plant sydd ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau addysg sy'n gyfarwydd iddyn nhw, a dilyniant y gefnogaeth gartref, fel therapïau neu wersi.

Rydyn ni hefyd wedi cael ymholiadau ynghylch y cynlluniau i ailagor ysgolion, pryder ynghylch pwy ddylai gael blaenoriaeth, ac eisiau i ysgolion ailagor i gefnogi plant agored i niwed. Rydyn ni wedi gallu darparu peth adborth ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru ar sut mae cefnogi plant sy'n fregus neu rai ag anghenion ychwanegol i fynychu addysg mewn amgylchedd diogel, cefnogol, ac rwy'n rhagweld y byddan nhw'n cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar hyn yn fuan iawn.

[2] https://www.trusselltrust.org/2020/05/01/coalition-call/

Rwyf hefyd wedi rhannu'r pryderon a godwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai dysgwyr gael eu heithrio o gefnogaeth addysg barhaus oherwydd diffyg cyfarpar TG neu fynediad i'r rhyngrwyd. Mae ysgolion wedi gwneud yn dda trwy barhau i osod gwaith a thasgau, a chynnig cefnogaeth ar-lein, ac mae llwyfan HWB wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol, ond roeddwn i wedi codi'r pryderon ynghylch y rhai heb fynediad at y dechnoleg angenrheidiol gyda'r Llywodraeth. Cyflwynodd y Llywodraeth rai canllawiau yn dilyn camau a gymerwyd yn Lloegr; ar y cychwyn doedd hyn ddim yn glir, ond nawr dylid cynghori pob teulu i gysylltu â'r awdurdod lleol os ydyn nhw'n cael trafferthion. Rwyf wedi sicrhau bod grwpiau fel gofalwyr ifanc ac ymadawyr gofal yn cael eu hystyried yn benodol yn y trafodaethau hyn. Rwyf hefyd wedi codi'r ffaith bod rhai plant heb rywle tawel i weithio, gyda desg a chadair at eu defnydd. Rwyf wedi codi llais ar y mater yma yn y cyfryngau yng Nghymru ac ar raglen Today Radio 4: https://www.bbc.co.uk/programmes/m000hvkk

Rwyf wedi cyhoeddi blog ar sut rwyf fi'n meddwl dylai'r materion hyn dderbyn sylw yn y dyfodol, yn ogystal ag yn y cyfnod yma, gan ddangos yn eglur bod anghydraddoldebau addysgol o'r fath yn bresennol i blant cyn y pandemig, ac y byddan nhw'n parhau oni bai bod camau'n cael eu cymryd https://www.childcomwales.org.uk/our-work/sallys-blog/what-the-lockdown-has-made-visible-about-childrens-lives/

Rwyf hefyd wedi cynnwys adrannau penodol ar gyfer cyngor ac adnoddau, gan gynnwys negeseuon fideo uniongyrchol, ar fy Hwb gwybodaeth, ar gyfer grwpiau fel plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gofalwyr ifanc, a phlant ag anghenion ychwanegol.

**Gwasanaethau plant, gan gynnwys gofal cymdeithasol a diogelu**

Mae i'w groesawu bod Cymru wedi dewis peidio â llacio dim o'r gofynion statudol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a diogelu plant, yn wahanol i'r newidiadau a gyflwynwyd yn Lloegr. Mae'r newidiadau yn Lloegr wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae hynny wedi arwain at nifer o ymholiadau i'm swyddfa innau ynghylch plant yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn falch o gadarnhau nad yw'r newidiadau'n berthnasol i Gymru, ond rwyf hefyd wedi annog Llywodraeth Cymru i wneud y neges hon yn gliriach yn y negeseuon, y

cyfathrebiadau a’r gwasanaethau i’r cyhoedd. Rwyf wedi gweld llythyr gan un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at eu holl aelodau etholedig, yn nodi bod y meini prawf a’r trothwy ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol wedi cael ei godi i’r rhai â’r angen mwyaf difrifol yn unig; pan godais i hyn gyda nhw, roedden nhw’n derbyn bod hyn yn wir ar gyfer gwasanaethau oedolion yn unig, ond nid oedd hynny’n cael ei nodi yn y llythyr, ac roeddwn i am sicrhau bod negeseuon clir yn cael eu trosglwyddo. Rwyf wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru yn awgrymu peth eglurhad ar sut mae canllawiau diweddar ar wasanaethau cymdeithasol plant yn ystod y pandemig wedi cael eu geirio, ac rwyf wedi cael fy sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn weithredol.

Trwy fy ymgysylltiad rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru rwyf wedi gofyn droeon am sicrwydd ynghylch sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cadw mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc os yw’n hysbys bod angen gofal neu gefnogaeth ychwanegol arnyn nhw. Rwyf wedi cael adroddiadau bod awdurdodau lleol yn asesu pob achos unigol trwy ddefnyddio system raddio Coch Ambr Gwyrdd ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb. Rwy’n ymwybodol bod cyfarfodydd adolygu a chysylltiadau teulu yn digwydd i raddau helaeth trwy alwadau fideo, ac ar adegau mae hyn wedi caniatáu i fwy o aelodau’r teulu gyfranogi heb ofynion teithio. Mae hyn yn rhywbeth a allai’n hawdd iawn gael ei ystyried i’r dyfodol, ochr yn ochr ag ailgyflwyno cyswllt uniongyrchol. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru rannu’r data monitro y maen nhw’n ei gasglu gan awdurdodau lleol, fel bod modd i mi edrych ar hyn o safbwynt annibynnol; rwyf heb dderbyn hyn eto, ond rwy’n disgwyl ei gael yn fuan.

Yn y gwaith cyfryngau rwyf wedi’i amlygu uchod, fe wnes i gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan hefyd, gan gynnwys y dyfyniad hwn "Rydyn ni’n ymwybodol iawn o’r perygl na fydd rhai materion diogelu yn dod i sylw ein gwasanaethau oherwydd bod llai o gysylltiad rhwng plant a’u hysgolion a’r asiantaethau eraill sydd fel arfer yn gweithio gyda theuluoedd," meddai Marian Parry Hughes, cadeirydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan. “Mae’n hanfodol felly bod unrhyw un sydd ag unrhyw bryder yn gwybod bod help a chefnogaeth ar gael, a’u bod yn gallu cysylltu â’r awdurdod lleol gyda’u pryderon." Rwyf hefyd wedi cynnwys gwybodaeth ar fy hwb ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch diogelwch ar-lein a phryderon ynghylch camdriniaeth, esgeuluso a mathau eraill o niwed, ac rwyf wedi codi llais ynghylch anghenion plant sy’n profi cam-drin domestig.

Rwy'n cadw llygad ar agor am arfer addawol sy'n dod i'r amlwg yr wyf fi'n credu allai barhau wedi cyfnod y pandemig. Er enghraifft, mae Lleisiau o Ofal wedi sefydlu cynnig newydd i ymadawyr gofal, yn cynnwys sesiynau rhithwir yn treulio amser gyda'u ffrindiau. Mae hyn yn ymddangos yn ffordd wych o ddod â rhwydwaith cymdeithasol a chefnogi cyfoedion at ei gilydd, a'i wneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach.  Rwy'n gwneud nodyn o arfer fel hyn sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod modd parhau â'r newidiadau y tu hwnt i'r cyfnod hwn o argyfwng.

Codwyd rhai pryderon gyda'm swyddfa hefyd ynghylch y diffyg gwasanaethau cymorth gweladwy y gall plant a phobl ifanc eu cyrchu'n uniongyrchol. Rydw i wedi gwneud ymdrech i ychwanegu gwybodaeth benodol berthnasol ar hyn i'm Hwb Gwybodaeth, ac i godi hyn gyda Llywodraeth Cymru. Rwy'n gwybod bod y Llywodraeth wedi cyflwyno rhai datganiadau ysgrifenedig am hyn, er enghraifft, ond efallai nad dyma'r ffordd orau i gyrraedd plant a'u teuluoedd yn uniongyrchol. Fe wnes i awgrymu wrth y Llywodraeth eu bod yn ystyried rhyw fath o bostiad uniongyrchol i blant, yn cynnwys gweithgareddau difyr, ond hefyd rywfaint o wybodaeth gyswllt allweddol y gallai fod ei hangen arnyn nhw. Rydw i hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ariannu ymgyrch newydd gan yr NSPCC yn ddiweddar i estyn allan at blant.

Mae mynediad at eiriolaeth annibynnol wedi bod yn fesur diogelu ychwanegol pwysig ar gyfer plant agored i niwed yn y cyfnod yma. Mae plant a phobl ifanc wedi gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol, wrth iddyn nhw weithredu o bell, ac maen nhw wedi sicrhau bod plant mewn gofal yn gallu siarad ag oedolyn maen nhw'n trystio. Rydyn ni wedi cael ein gwneud yn ymwybodol o achosion lle mae lleoliadau wedi chwalu'n ddirybudd, pobl ifanc yn methu cysylltu â'u gweithwyr cymdeithasol, a phobl ifanc yn pryderu am gyswllt â'u teuluoedd biolegol yn ystod y cyfnod yma. Mae gallu cysylltu ag eiriolwyr ar yr adeg hon wedi bod yn ffordd bwysig o sicrhau gwrandawiad i blant, a'u galluogi i gael gafael ar wybodaeth.

**Addysg a gofal plentyndod cynnar, gan gynnwys yr effaith ar y farchnad gofal plant a datblygiad yn ystod plentyndod**

Rwy'n ymwybodol o amrywiol bryderon ynghylch cynaliadwyedd y sector gofal plant yng Nghymru. Fe ges i fy nghopïo i mewn i ohebiaeth gan Bartneriaeth CWLWM, yn codi eu pryderon

am y Cynllun Cadw Swyddi ac amrywiol ffynonellau cyllid. Fe wnes i godi hyn gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydden nhw'n talu am gostau gofal plant gweithwyr hanfodol am gyfnod cychwynnol o dri mis, a bod hynny i gael ei adolygu ganol mis Mai. Rwyf hefyd yn deall bod eglurhad wedi dod ynghylch pryderon cychwynnol am fynediad i'r cynlluniau ffyrlo mewn llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 1af Mai, lle nodwyd bod cyflogwyr Gofal Cymdeithasol yn gallu defnyddio'r cynllun yma os yw'r GIG wedi cysylltu â'u gweithwyr i ddweud y dylen nhw gael eu "gwarchod" am gyfnod o 12 wythnos, a bod pob sefydliad yn y Deyrnas Unedig sydd â chynllun PAYE ar 28 Chwefror yn gallu defnyddio cynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws, beth bynnag yw eu statws fel sefydliadau preifat neu rai sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus.

Mae rôl bwysig i ofal plant ym mywydau plant a theuluoedd, p'un a yw hynny mewn meithrinfa yn ystod y tymor, ar ffurf gwarchod plant neu glwb plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Gall mynd i ddarpariaeth o ansawdd da gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn, yn arbennig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae rhieni a gofalwyr yn dewis defnyddio gofal plant am nifer o resymau, gan gynnwys tra'u bod nhw yn mynd allan i weithio. Mae plant gweithwyr hanfodol a'r rhai y nodwyd eu bod mewn sefyllfa fregus wedi parhau i fedru cael peth darpariaeth gofal plant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth i amrywiol gyfyngiadau gael eu llacio, ym mha ffurf bynnag, bydd angen am y sector gofal plant, ynghyd ag eraill fel y sector chwarae, yn y tymor byr, canolig a hir. Os bydd pryderon ynghylch sefydlogrwydd ariannol yn parhau, bydd llawer o leoliadau/ddarparwyr yn cael trafferth gweithredu eto os na fydd y sefyllfa'n newid. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn dadlau o blaid cefnogaeth i'r sector ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ystyried beth sy'n gallu cael ei gyflawni yma yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y sector yma'n cael ei gymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau ynghylch cynigion cefnogaeth ariannol yma yng Nghymru, fel bod lleoliadau digonol o ansawdd, gyda chefnogaeth dda, ar gael i blant ddychwelyd iddynt pan fydd hynny'n briodol.

Mae sawl rhiant wedi cysylltu â'm swyddfa ynghylch mynediad i ddarpariaeth gofal plant a thalu am ddarpariaeth, er bod dim hawl i gael mynediad iddi.

Rwy'n nodi bod canllawiau'r Llywodraeth mewn nifer o feysydd, gan gynnwys addysg a gofal plant, yn cael eu diweddaru'n gyson iawn i adlewyrchu'r sefyllfa newidiol o ddydd i ddydd. Mae fy

nhîm innau'n sicrhau bod ganddyn nhw'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn ei throsglwyddo i deuluoedd, ond maen nhw'n nodi bod cael hyd i'r wybodaeth gywir wedi bod yn ddryslyd neu'n anodd ar adegau oherwydd bod cyhoeddiadau'n digwydd bob dydd. Nid yw'r holl newidiadau'n ymddangos ar ffurf storïau newyddion ar wefan y Llywodraeth, nac yn cael eu nodi fel canllawiau newydd/wedi'u diweddaru, felly mae'n rhaid i chi chwilio trwy amrywiaeth o ganllawiau i gael hyd i'r newidiadau perthnasol.

Rwyf hefyd wedi clywed pryderon am gau mannau gwyrdd, yn arbennig mewn ardaloedd lle gallai teuluoedd fod heb eu gerddi eu hunain. Rwyf wedi trosglwyddo'r rhain i Lywodraeth Cymru, ond rydw i hefyd wedi ceisio sicrhau bod yr adnoddau chwarae rwy'n eu cynnwys ar fy Hwb Gwybodaeth yn defnyddio deunyddiau fydd ar gael yn y tŷ, er enghraifft y bag ailgylchu.

**Addysg ysgol statudol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dysgu o bell, dilyniant dysgu, yr effaith ar ddeilliannau addysg a gweithredu'r polisi gweithwyr hanfodol**

Uchod rwyf wedi nodi rhai pryderon ynghylch mynediad at ddysgu o bell.

Mae rhai pryderon wedi cael eu codi hefyd gan weithwyr addysg a gwaith ieuenctid proffesiynol, gyda chyngor cyferbyniol yn ymddangos ar sut mae cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc y gallai fod angen peth cefnogaeth ychwanegol arnyn nhw. Mae'n debyg bod canllawiau undeb addysgu'r NUS wedi rhybuddio yn erbyn cyswllt dros y ffôn rhag ofn anawsterau diogelu. Er bod bwriadau hynny'n dda, roedd yn creu perygl na fyddai cyswllt o gwbl â disgyblion agored i niwed, er bod angen cyngor neu gefnogaeth ychwanegol arnyn nhw yn y cyfnod yma. Mae gweithwyr proffesiynol hefyd wedi gofyn am eglurhad ynghylch a oes angen caniatâd rhieni neu beidio i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein a gwaith ieuenctid.

Fy neges ar hyd y cyfnod yma fu annog gweithwyr proffesiynol i gadw mewn cysylltiad â'r bobl ifanc maen nhw'n eu nabod, gan y byddan nhw eisoes yn gwybod pwy allai fod mewn sefyllfa fregus yn y cyfnod yma. Rwyf wedi derbyn llawer o adroddiadau am ysgolion yn cadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr mewn ffyrdd arloesol, ond rwy'n aros i glywed gan y Llywodraeth beth yw canlyniadau ymarferiad casglu data y gwnaethon nhw ei gwblhau ar 7 Mai, er mwyn cael sicrwydd ynghylch y darlun Cymru gyfan mewn perthynas â'r gefnogaeth i ddysgwyr sy'n fregus.

**Arholiadau a chymwysterau (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol)**

O gychwyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r newidiadau polisi cysylltiedig, mae'r trefniadau ar gyfer carfannau arholiadau'r haf yma wedi bod yn un o'r rhesymau mwyaf cyffredin i bobl ifanc a'u teuluoedd gysylltu â'm swyddfa.

Rwy'n cydnabod bod pobl ifanc wedi gweithio'n eithriadol o galed ar hyd eu gyrfa yn yr ysgol gyda golwg ar dymor yr arholiadau, a bod y newid sydyn i'r trefniadau yn sicr o fod yn siom i lawer o ddisgyblion, er fy mod i'n sylweddoli hefyd y bydd wedi achosi gollyngdod i eraill. Fe wnes i geisio adlewyrchu'r teimladau hynny yn y postiad blog yma nôl ym mis Mawrth: https://www.childcomwales.org.uk/our-work/sallys-blog/keep-being-you-keep-being-awesome/

Mae'r pryderon a godwyd gyda fi wedi cynnwys:

- Peidio â dyfarnu'r graddau a ragfynegwyd i bobl ifanc sy'n derbyn gwersi gartref gan eu hawdurdod lleol;
- Pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref yn methu cael graddau a ragfynegwyd chwaith;
- Pobl ifanc sydd wedi bod yn dioddef salwch corfforol neu feddyliol ar hyd y flwyddyn, oedd yn gobeithio adennill rhai marciau yn arholiadau'r haf;
- Y trefniadau ar gyfer blynyddoedd 10 a 12, gan gynnwys cyfleoedd i sefyll rhai arholiadau yn yr hydref neu ym mis Ionawr, yn hytrach na bod eu gradd yn dibynnu'n llwyr ar arholiadau 2021, a/neu bod modd 'bancio' rhai modiwlau ar sail graddau a ragfynegwyd, fel yn achos blynyddoedd 11 a 13; ac
- Ansicrwydd cyffredinol ynghylch y trefniadau fydd ar waith. Roedd llawer o'r negeseuon yn targedu oedolion yn hytrach na phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol, ac achosodd hynny lawer o gwestiynau heb eu hateb a phryderon.

Bydda i'n ymateb yn llawn i ymgynghoriad cyfredol Cymwysterau Cymru, sy'n dod i ben ar 13 Mai.

Yn ôl yr hyn rwy'n deall, mae Cymwysterau Cymru yn ceisio sicrhau'r system decaf sy'n bosib, ac rwy'n cydnabod tasg mor anodd yw hynny iddyn nhw mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac

yng nghyswllt mater a allai greu mwy o bryder ac ansicrwydd i'n pobl ifanc. Rwy'n gobeithio bydd pawb sy'n pryderu yn ymateb i alwad Cymwysterau Cymru am dystiolaeth.

**Addysg bellach ac uwch, gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol y sector, effaith newidiadau i gyrsiau, llety myfyrwyr a gwasanaethau eraill i fyfyrwyr, ac effaith hynny ar hawliau cyfreithiol myfyrwyr**

**Cymorth ariannol i fyfyrwyr, gan gynnwys yr effaith ar fyfyrwyr sydd wedi colli eu cyflogaeth ran amser.**

Gan fod fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu plant 0-18 oed yn bennaf, does dim llawer o ymholiadau cyllid myfyrwyr neu addysg uwch wedi cael eu codi gyda fi. Fe wnaethon ni godi un ymholiad gan bobl ifanc ynghylch parhau â thaliadau EMA yn union ar ddechrau'r cyfyngiadau symud. Fe wnaethon ni sicrhau cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod taliadau'n parhau ac ychwanegu hynny at ein safle Hwb Gwybodaeth.

**Gwaith ieuenctid**

Rwy'n ymwybodol bod llawer o weithwyr ieuenctid wedi cynnig ad-drefnu eu rolau i gefnogi'r ddarpariaeth addysg ar hyn o bryd; mae hyn wedi bod yn rhywbeth i'w groesawu. Ymddengys bod gwasanaethau ieuenctid yn gyffredinol wedi cael hyd i ffyrdd o barhau i gefnogi pobl, gan gynnwys cefnogaeth ar-lein.

Fel y nodwyd uchod rwyf hefyd wedi trosglwyddo rhai ymholiadau gan weithwyr ieuenctid i Lywodraeth Cymru, ynghylch caniatâd i fod yn rhan o waith ieuenctid rhithwir. Rwyf hefyd wedi codi pryderon ynghylch statws gweithwyr allweddol, a chael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod modd ystyried gweithwyr ieuenctid sy'n cefnogi gweithgareddau fel iechyd a llesiant neu ddarpariaeth addysg fel gweithwyr hanfodol.

**Cefnogaeth sydd ar gael i'r gweithlu, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, gwasanaethau plant a gweithwyr ieuenctid.**

Rwy’n ymwybodol bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyflwyno cardiau adnabod ‘gweithiwr hanfodol’; mae’n debyg bod y rhain wedi cael derbyniad da, ac wedi caniatáu i weithwyr cymdeithasol dderbyn rhai o’r manteision sydd ar gael i weithwyr y GIG. Rwy’n ymwybodol bod trafodaethau’n parhau i estyn rhai manteision eraill, fel teithio am bris gostyngol/am ddim.

Yn gyffredinol mae’n dda nodi bod llawer rhan o’r gweithlu plant yn dal i sôn bod ganddyn nhw lefel uchel o gapasiti.

**Rhieni a gofalwyr**

Rydyn ni’n defnyddio ein Hwb gwybodaeth, y cyfryngau cymdeithasol (yn arbennig Facebook) a’n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor i barhau i roi cefnogaeth ac arweiniad i rieni a gofalwyr.

Lle rydyn ni wedi cynnig adborth i Lywodraeth Cymru ar eu canllawiau a drafftiau, rydyn ni wedi ceisio meddwl am hynny o bersbectif plant a’u teuluoedd, er mwyn sicrhau bod y cyngor yn glir ac yn awdurdodol.

Rydyn ni hefyd wedi sicrhau ein bod ni’n cywiro unrhyw gamddealltwriaeth os yw cyngor neu ganllawiau o Loegr yn cael eu defnyddio’n anghywir, neu os bydd rhagdybiaeth eu bod yn berthnasol i Gymru.

Rydw i wedi rhannu’r neges hon i rieni ar Twitter
“Efallai bod y gwasanaethau sy’n helpu eich plant yn edrych ac yn teimlo rhywfaint yn wahanol, ond maen nhw’n dal yno, felly defnyddiwch nhw os gwelwch yn dda. Maen nhw’n cynnwys:

- Ysbytai a Meddygon Teulu
- Help a chefnogaeth gan wasanaeth cymorth i deuluoedd eich awdurdod lleol
- Cefnogaeth iechyd meddwl”
  https://mobile.twitter.com/childcomwales/status/1253297865901867008

Rydw i hefyd wedi annog rhieni / gofalwyr i barhau i gadw apwyntiadau ar gyfer brechiadau plentyndod trwy weithio gyda chyfathrebiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydw i wedi rhannu

negeseuon o'r fath ar fy llwyfannau cyfryngau cymdeithasol: https://www.bbc.co.uk/news/amp/uk-wales-52457775?__twitter_impression=true

**Hawliau Plant**

Yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar ddydd Mawrth 5 Mai 2020, rwy'n ymwybodol nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau unrhyw Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA).

Er mai deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw Deddf Coronafeirws 2020, dylai'r penderfyniadau i lywio'r Rheoliadau yng Nghymru fod yn destun CRIA.

Serch hynny, rwyf wedi croesawu'r ffaith bod rheoliadau gwasanaethau plant yn dal mewn grym yn ystod y cyfnod hwn, gan sicrhau bod dyletswyddau diogelu ac amddiffyn plant yn parhau. Nid yw hynny bob amser wedi bod yn glir, gan fod llawer o'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol wedi canolbwyntio ar y newidiadau yn Lloegr, felly roedd yn dda clywed datganiad clir ar hynny gan Lywodraeth Cymru yn y sesiwn honno o'r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi troi at fy swyddfa am gyngor ynghylch asesiadau ar effaith yn y cyfnod hwn, a bydd fy Mhennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus yn cwrdd â swyddogion ar 12 Mai.

Rwy'n deall bod cyfnod cychwynnol y rheoliadau wedi cael ei yrru gan frys a'r argyfwng iechyd cyhoeddus oedd yn drech na phopeth, ond mae'r broses o adolygu bob 3 wythnos yn caniatáu cynnal asesiadau ar effaith fesul cam. Os na fu modd asesu'r effaith ar blant a phobl ifanc neu ganfod eu barn cyn rhoi'r Rheoliadau gwreiddiol ar waith, sut bydd yr effaith barhaus yn cael ei monitro er mwyn llywio datblygiad polisi yn gyson? Mae hyn hefyd yn berthnasol wrth i'r Llywodraeth symud i mewn i'r 'cyfnod o adfer'; sut byddan nhw'n gwybod beth i'w newid a phryd, heb ddeall pa effaith a gafodd y penderfyniadau wnaethon nhw, ac a gafodd hynny effaith niweidiol ar grwpiau penodol, gan gynnwys grwpiau oedd o bosib heb gael eu hystyried pan gafodd y Rheoliadau eu llunio gyntaf?

Er mod i ddim o reidrwydd yn disgwyl gweld dogfennau ysgrifenedig hir ar gyfer pob rhan o asesiad ar effaith, byddwn i yn disgwyl i asesiadau ar effaith ddigwydd a chael eu cyhoeddi. Mae'n

anodd i mi gyflawni fy rôl graffu barhaus yn llawn heb ddeall yr ystyriaethau mae'r Llywodraeth wedi rhoi sylw iddynt wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Bydd hefyd yn annog bod yn agored ac yn dryloyw, a dylai roi sicrwydd i bobl bod eu hamgylchiadau'n cael eu hystyried, gan fod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi cysylltu â mi oherwydd eu bod yn teimlo bod eu hamgylchiadau penodol yn cael eu hanwybyddu ar hyn o bryd.

Yn olaf, rwyf wedi ysgrifennu at holl Heddluoedd Cymru i'w hatgoffa am bwysigrwydd hawliau plant a phlismona mewn modd sy'n ymwybodol o drawma ar yr adeg hon. Efallai na fydd pobl ifanc yn deall y mesurau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, neu bod dylanwadau eraill arnyn nhw, gan gynnwys gangiau cyffuriau County Lines neu Ecsbloetio Plant yn Rhywiol. Efallai eu bod nhw ddim yn cael arweiniad a chefnogaeth addas gan oedolion ar eu haelwydydd i gydymffurfio â'r canllawiau, neu efallai bod eu gofalwyr yn cael trafferth sicrhau bod pobl ifanc yn eu gofal yn cydymffurfio â'r canllawiau.

Er nad wyf i'n tanbrisio'r her sylweddol mae'r Heddlu a'r staff rheng flaen i gyd yn ei hwynebu wrth gadw trefn arnon ni a'n cadw'n ddiogel yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus yma, roeddwn i am sicrhau bod mesurau hollbwysig i ddiogelu'r cyhoedd yn dal i ddigwydd ochr yn ochr â gorfodi'r cyfyngiadau hyn gyda ymwybyddiaeth o drawma. Er enghraifft, bod swyddogion yn gofyn, 'Ydych chi'n iawn?' a 'Beth sy'n mynd ymlaen?' os byddan nhw'n gweld grwpiau o blant o gwmpas y lle, cyn eu hatgoffa am reolau cadw pellter cymdeithasol.

Cyflwynwyd gan:



Yr Athro Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru